
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 No. 2127

**Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir
(Clerc i Gorff Llywodraethu) (Cymru) 2013**

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “yr hyfforddiant” (“*the training*”) yw'r hyfforddiant a nodwyd yn y ddogfen a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ym mis Medi 2013 o'r enw “Cynnwys hyfforddiant ar gyfer clerod cyrff llywodraethu yng Nghymru”(1) sy'n nodi at ddiben adran 24 o Fesur Addysg (Cymru) 2011 yr hyfforddiant a'r safonau rhagnodedig;

ystyr “Rheoliadau 2005” (“*the 2005 Regulations*”) yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005(2);

ystyr “Rheoliadau 2010” (“*the 2010 Regulations*”) yw Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010(3);

ystyr “Rheoliadau 2012” (“*the 2012 Regulations*”) yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Trosi o fod yn Fwrdd Gweithredol Interim) (Cymru) 2012 (4); ac

ystyr “swyddog cymorth i lywodraethwyr” (“*governor support officer*”) yw person a gyflogir gan awdurdod lleol yn unswydd neu yn bennaf at y diben o ddarparu cymorth a chynghor i'r awdurdod lleol, i benaethiaid ac i lywodraethwyr.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at gorff llywodraethu yn gyfeiriad at gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yn ardal yr awdurdod lleol.

(3) At ddiben y Rheoliadau hyn mae'r cwestiwn a yw clerc wedi cwblhau'r hyfforddiant yn foddhaol ai peidio i'w benderfynu gan y person a ddarparodd yr hyfforddiant i'r clerc hwnnw.

(4) At ddibenion Rheoliadau 2012, mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at “corff llywodraethu”, “llywodraethwr” a “llywodraethwyr” i'w darllen fel cyfeiriadau at “corff llywodraethu cysgodol”, “llywodraethwr cysgodol” a “llywodraethwyr cysgodol”.

(1) ISBN Rhif 978-0-7504-9645-2.

(2) O.S. 2005/2914 (Cy.211), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/3200 (Cy.236), O.S. 2006/873 (Cy.81), O.S. 2007/944 (Cy.80), O.S. 2009/2544 (Cy.206), O.S. 2010/638 (Cy.64), O.S. 2010/1142 (Cy.101), O.S. 2010/2582 (Cy.216) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2012/1643 (Cy.212).

(3) O.S. 2010/638 (Cy.64).

(4) O.S. 2012/1643 (Cy.212).